# Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl ar 26 Mawrth 2003 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F. D. Jones (Cadeirydd) J. Butterfield, M.Ll. Davies, S. Drew, A.E. Fletcher-Williams, I. M. German, M. A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones,, G. Jones, M.M. Jones, (sylwedydd) P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, D.A. Thomas, D.A.J. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams,(sylwedydd) ac R.Ll. Williams.

## YMDDIHEURIADAU

G. Clague, R.W. Hughes, D. Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Prif Swyddog Cynllunio (Polisi), Uwch Swyddog Cynllunio (Y De) (Iw an Lloyd) (Roedd y Pennaeth Priffyrdd hefyd yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod) G. Butler (Swyddog Gweinyddol).

**1211. MATERION BRYS**

Dim

**1212. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

**TREFN NEWYDD - CYFLWYNIADAU HWYR**

Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau y byddai rhestr o gyflwyniadau hwyr a newidiadau a awgrymir i amodau, yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu ar ddiwrnod y cyfarfod.

**Caniatâd**

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2003/0056/PF | Newid defnydd fflat llawr cyntaf yn fflat ac ystafell arddangos/swyddfa, ystafell staff a storfa yn 222-224 Stryd Fawr Prestatyn. (Ymataliodd y Cynghorydd Sophia Drew rhag pleidleisio.) |
| 43/2003/0079/PF | Adeiladu estyniad to goleddf un llawr ar ar yr ochr a chyda ffenestr dormer i gefn ty annedd (rhannol ôl-weithredol) yn 21 St Annes Avenue, Prestatyn. (Ymataliodd y Cynghorydd Sophia Drew rhag pleidleisio.) |
| 43/2003/0115/PF | Darparu ystafelloedd yn y gwagle to gydag estyniad dormer yng nghefn annedd yn 6 Alexander Drive, Prestatyn. |
| 45/2003/0154/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol gan Uned Gwarchod yr Arfordir ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Defnyddio tir a gosod offer i ffurfio parc sglefrio ar dir yn cyffinio Maes Parcio'r Twr Awyr, Promenâd Gorllewin, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl. (Pleidleisiodd y Cynghorydd Sophia Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |

| | |
|---|---|
| 47/2002/0227/PC | Cadw adeilad storio presennol, 3 stabl ac ystafell offer (Cais Ôl-Weithredol) yn Rhan o Gae rhif 1685 Holywell Road, Rhuallt, Llanelwy.<br>***Yn amodol ar:*** Amod diwygiedig 3 ".... y caniatâd hwn a bydd yn cynnwys plannu gwrych a choed yn ôl y manylion canlynol - prysgwydd 45 - 60cm uchel 4 fesul medr wedi eu plannu mewn dwy res 80% draenen wen, 10% draenen ddu, 5% cyll, 3% celyn, 2% rhosyn gwyllt a choed onnen (1.2-1.5m uchder) a derw (0.9 - 1.2 m uchder) ar ganol 1.5 m ac unrhyw goed neu blanhigion ac ati". |
| 47/2002/1265/PF | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE) Cadw adeilad da byw presennol ac adeiladu estyniad i gadw da byw (rhannol ôl-weithredol) ym Marian Mawr, Caerwys Road, Cwm Dyserth, Y Rhyl.<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig canlynol 1 & 3:<br>1. Er gwaethaf y manylion a nodir ar Ddarlun Rhif M/01 Rev B dylai'r to a'r gwaith cladio i'r muriau a ganiateir trwy hyn fod yn llwyd/las lechen mewn lliw a'u cadw wedi hynny yn y lliw a gymeradwywyd.<br>3. ".....yn y tymhorau plannu a hadu nesaf ar ôl cwblhau'r datblygiad". (Ymataliodd y Cynghorydd Sophia Drew rhag pleidleisio.) |
| 47/2003/0132/PF | Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.<br>(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd.)<br>Defnydd ychwanegol tir ar gyfer storio carafanau i ganiatáu 17 llain carafanau teithiol ac estyniad i safle carafanau teithiol i ffurfio man mwynderau agored/ardal adloniant a thirweddu ym Maes Carafanau Penisa'r Mynydd, Caerwys Road, Rhuallt, Llanelwy.<br>***Yn amodol ar*** *yr Amodau Diwygiedig canlynol 2 a 3*<br>2. Ni chaniateir cychwyn ar y defnydd a ganiateir nes bydd mannau pasio i gerbydau wedi eu darparu ar y ffordd sirol Categori C rhwng safle'r cais a'r A55 (T) yn unol â manylion i'w cyflwyno i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>3. (camgymeriadau sillafu) "Caravans" "59 touring caravans".<br>Rheswm - 3. Er budd mwynderau a diogelwch priffyrdd. (Pleidleisiodd y Cynghorydd Sophia Drew yn erbyn caniatâd cynllunio ac ymataliodd y Cynghorydd M. Ll. Davies rhag pleidleisio.) |
| 01/2002/1040/PF | Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.<br>Atebodd y Pennaeth Priffyrdd a'r Rheolwr Datblygu Priffyrdd gwestiynau'r Aelodau ar agweddau priffordd y datblygiad hwn.<br>(Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol gan Gymdeithas Ddinesig Dinbych, Cymdeithas Tai Clwyd a Mr & Mrs Skilling 9 Gerddi Mair, Dinbych.) Adeiladu 62 annedd, gyda chylchfan gysylltiedig ar Ffordd Y Rhyl, ffyrdd gwasanaeth a chysylltu'r safle gyda Ffordd Caledfryn, man agored a draeniad a dymchwel adeiladau fferm presennol<br>ar dir yn Alafowlia Farm, oddi ar Ffordd Y Rhyl, Dinbych.<br>Mae'r argymhelliad hwn yn destun cwblhau a llofnodi Ymrwymiad Adran 106 Obligation o fewn 12 mis yn gofyn am drosgwyddo saith eiddo ar y safle i gymdeithas dai gofrestredig a throsglwyddiad gwirfoddol swm cymudo a |

gytunwyd am y man agored a chlirio'r siec. Os ar ôl 12 mis nad yw'r ymrwymiad wedi ei lofnodi byddai'r cais yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor i'w ailystyried yng ngoleuni'r amgylchiadau sy'n berthnasol ar y pryd.
(Nid oedd y Cynghorydd Neville Hugh Jones yn bresennol yn ystod y drafodaeth ac felly ni bleidleisiodd.)

04/2002/0798/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Bensaer Tirwedd y Sir.)
Cynnig i adeiladu canolfan gymdeithasol gan gynnwys lle parcio cysylltiedig, mynedfa newydd ac adleoli cae chwarae ysgol ar dir ger Ysgol Gynradd Betws Gwerfil Goch, Betws Gwerfil Goch, Corwen.
***Yn amodol ar:*** Amod Diwygiedig 13 - Ni chaniateir cychwyn datblygiad ar adeilad y Ganolfan Gymdeithas nes bydd y cae chwarae wedi ei adleoli a'r gwaith wedi ei gw blhau i safon lle gellir chwarae arno ac mae ar gael i'w ddefnyddio.

15/2002/1339/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Gymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Ardal.)
Defnyddio tir fel parc adar dw r, gan gynnwys adeiladu 3 pwll newydd, llwybrau troed a thirweddu/plannu cysylltiedig ym Mhen y Ffrith, Llandegla Road, Llanarmon-Yn-Iâl, Yr Wyddgrug.

15/2003/0070/PR

(Ar ôl ystyried 5 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE, Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Ardal, Mr & Mrs Rigby o Fronallt, Llandegla Road, P & G Crawford o Ellerslie, Llandegla Road a B Barton o Glan Alyn, Llanferres Road.)
Manylion lleoliad, dylunio a golwg allanol ty annedd, tirweddu cysylltiedig ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinell cyfeirnod 15/2001/186/PO)
ar Lain 2 tir i'r gogledd o Gam Yr Alyn, Llandegla Road, Llanarmon-Yn-Ial, Yr Wyddgrug.
***Yn amodol ar:*** Ddileu Amod 1, ail-rifo'r amodau canlynol ac Amodau newydd 3, 8 a 9.
3. Ni ddylid symud unrhyw rai o'r gwrychoedd ar hyd ffiniau gogledd-ddwyreiniol a gogledd-orllewin y safle oni cheir cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw .
8. Dylai lefelau'r llawr a'r safle fod fel a gytunir yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad, ac nid fe a nodir ar ddarlun cyf. 2236K03.
9. Ni ddylai neb fyw yn yr eiddo nes bydd gwrych newydd wedi ei blannu yn union y tu hwnt i ymlediad gweledEdd y fynedfa, y rhywogaeth a'r maint i'w cytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y datblygiad, a dylid ail-blannu unrhyw rai sy'n marw neu'n dioddef afiechyd gyda rhai o'r un maint a rhywogaeth yn y tymor plannu nesaf.
Rheswm dros Amodau -
8. Er budd mwynderau trigolion eiddo cyffiniol ac i sicrhau bod graddiant y fynedfa a'r lle parcio yn dderbyniol.
9. Er budd mwynderau gweledol.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd S. Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio)

| | |
|---|---|
| 15/2003/0071/PR | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE a'r Cynghorydd B Barton, Glan Alyn, Llanferres Road, Llanarmon yn Iâl.)<br>Manylion lleoliad, dylunio a golwg allanol ty annedd, tirweddu cysylltiedig ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinell cyfeirnod 15/2002/235/PO)<br>ar Lain 1 tir i'r gogledd o Gam Yr Alyn, Llandegla Road, Llanarmon-Yn-Ial, Yr Wyddgrug.<br>***Yn amodol ar:*** Ddileu Amod 1, ail-rifo'r amodau canlynol ac Amodau newydd 8.<br>3. Ni ddylid symud unrhyw rai o'r gwrychoedd ar hyd ffordd derfyn y safle (ar hyd y B5431) oni cheir cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. Rheswm - er budd mwynderau gweledol a phreswyl (Pleidleisiodd y Cynghorydd S Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio) |
| 18/2002/1316/PF | Manylion diwygiedig bloc cenelau ar gyfer anifeiliaid domestig (cais ôl-weithredol) a gymeradwywyd eisoes dan Gôd rhif 15/2002/235/PO yn Gelli Uchaf, Llandyrnog, Dinbych. |
| 23/2002/1279/PF | Manylion diwygiedig newidiadau ac estyniadau i dy annedd, dymchwel modurdy bric, trin muriau terfyn priffordd, estyniad i gwrtil preswyl, a gymeradwywyd eisoes dan Gôd rhif 23/772/99/PF ym Mryn Eglur, Llanrhaeadr Y.C., Dinbych. (Pleidleisiodd y Cynghorydd Sophia Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |

**Gwrthod**

| | |
|---|---|
| 43/2003/0083/AD | Cadw arwydd cyfeirio ymlaen llaw ar dalcen (cais ôl-weithredol) yn Right Choice 89-91 Victoria Road, Prestatyn.<br>***Rheswm diwygiedig am wrthod***<br>Ychwanegu "a byddai hyn yn groes i Bolisi GEN11 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych a Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Rhif 17 - Hysbysebu.<br>2. Byddai'r arwydd, oherwydd ei fod yn cynnwys saeth cyfeirio a chyfarwyddiadau, yn debygol o achosi dryswch i fodurwyr ac felly'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch ffordd yn groes i'r cyngor yng Nghylchlythyr 14/92 y Swyddfa Gymreig ac Atodiad B i'r cylchlythyr hwnnw, ac yn groes i faen prawf (iii) Polisi GEN 11 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych. (Pleidleisiodd y Cynghorydd Neville Hugh Jones o blaid rhoi caniatâd cynllunio ac ymataliodd y Cynghorydd Sophia Drew rhag pleidleisio.) |
| 44/2003/0014/PS | (Ar ôl 4 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl, Heddlu Gogledd Cymru, Pennaeth Priffyrdd a K S Jemmett (ar ran deiliad 14 Bryn Cwnin Road).<br>Amrywio Amod Rhif 2 ar Ganiatâd Cynllunio Cyf. 44/569/99/PF (a ganiatawyd ar apêl) i ddarllen "Cyfyngir yr arwerthiant cist car i 14 Sadwrn a 28 Sul mewn blwyddyn galendr" ar Gae'r Sioe, Ffordd Y Rhyl, Rhuddlan, Y Rhyl.<br>***Rheswm Diwygiedig dros Wrthod:*** Byddai'r cynnig yn arwain at weithgaredd siop ar safle y tu allan i'r dref, yn groes i bolisi adwerthu cenedlaethol a strategaeth adwerthu Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych a byddai'n debygol o arwain at lai yn myn i ganol tref Y Rhyl a chanol trefi cyfagos, yn groes i faen prawf (i) Polisi RET18 Cynllun |

Datblygiad Unedol Sir Ddinbych. (Ymataliodd y Cynghorydd John Smith rhag pleidleisio.)

**Gohirio'r** rhesymau a roddwyd:

43/2002/1264/PF

(Ar ôl ystyried 4 llythyr ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd G Clague; Pennaeth Priffyrdd; Chris Ruane A.S. (ar ran G J Hannaby o 44 Berwyn Crescent) a Mr & Mrs J Jones o 69 Dyserth Road.
Adeiladu 15 ty annedd a 21 fflat tri llawr, meddygfa a fferyllfa a ffurfio ffyrdd mynediad a mannau parcio
Yn Lleiniau 1-15, Safle Fflatiau a Meddygfa, Rhodfa Wyn, Tower Gardens Estate (Anwyls) Victoria Road, Prestatyn.
Gohiriwyd i drafod lleihad yn y raddfa a gwelliannau i ddyluniad y fflatiau.

02/2002/1159/PO

Ar ôl ystyried cynllun diwygiedig a ddosbarthwyd a 2 lythyr ychwanegol gan yr ymgeisydd a P & G Jones o Llanrhydd Farm.)
Adeiladu ty annedd, modurdy ar wahân a gwaith cysylltiedig ar dir yn cyffinio Tyn Y Caeau, Llanrhydd, Rhuthun.
Gohirio i ganiatáu gwirio polisi yn y ddogfen CDU Cymru.

03/2002/1232/PF

(Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llangollen ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys.)
Newid ac estyniad i adeilad i ffurfio 22 uned preswyl a 2 uned swyddfa yn Upper Dee Mill, Mill Street, Llangollen.
Gohirio i ganiatáu ymgynghori lleol pellach.

**1213. EITEMAU GORFODI**

ENF/2003/10

Hysbyseb heb awdurdod yn 89-91 Victoria Road, Prestatyn.
PENDERFYNWYD: Rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:
1. Cychwyn camau erlyn neu gamau llys priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Atal os tybir bod angen hynny i sicrhau tynnu ymaith arwydd di-olau ar wal

**1214. ASTUDIAETH ADWERTHU A HAMDDEN SIR DDINBYCH 2003**

Nododd y Pwyllgor gynnwys adroddiad a fydd yn ffurfio sylfaen ar gyfer arolygu polisi ar yr adeg briodol.

**1215. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oedd angen unrhyw ymweliadau safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**1216. RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdodau dirprwyedig rhwng 1af Chwefror 2003 - 28ain Chwefror 2003.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

*DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 12.45 PM*

*********